Teitl y Swydd: Cynorthwyydd Recriwtio Myfyrwyr Graddedig

Uned/Ysgol: Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio Myfyrwyr

Gradd: 4A/B

HERA: MCSR45

**Prif bwrpas y rôl**
Dan arweiniad y Rheolwr Recriwtio Myfyrwyr, byddwch yn canolbwyntio ar amryw o swyddogaethau gan gynnwys darparu gwybodaeth a dadansoddiad sylweddol o'r farchnad.

Byddwch hefyd ymgymryd â gweithgaredd recriwtio personol effeithiol gan feithrin perthnasoedd â darpar fyfyrwyr, cyn-ymgeiswyr, ymgeiswyr, a rhanddeiliaid fel athrawon a rhieni. Bydd hyn yn cynnwys teithio'r DU yn cynrychioli'r Brifysgol.

Diben y rôl hon yw cyflawni gweithgareddau recriwtio myfyrwyr, ac i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â chynllun marchnata, recriwtio a throsi cyffredinol Met Caerdydd a tharged recriwtio myfyrwyr

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Cymorth gyda chyflwyno cyfres o sgyrsiau ymwybyddiaeth Addysg Uwch i roi persbectif graddedig diweddar ar y daith i Addysg Uwch er mwyn cynyddu ceisiadau i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

- Cymorth gyda chyflwyno cyfres o ddigwyddiadau recriwtio ar y campws i gynyddu ceisiadau i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

- Cynrychioli'r brifysgol mewn ffeiriau Addysg Uwch/nosweithiau i rieni a digwyddiadau sy'n ymwneud â gyrfaoedd ysgol ledled Cymru a'r DU. Bydd hyn yn golygu gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol. Mae'n bosib y gall hyn olygu aros dros nos.

- Cefnogi cyflwyno sgyrsiau mewn Digwyddiadau Recriwtio Myfyrwyr a gweithgareddau fel Diwrnodau Agored, Diwrnodau Ymgeiswyr, Clirio a Recriwtio Ôl-raddedig.

- Cymorth gydag ymgyrchoedd galwadau i ddarpar fyfyrwyr i annog ymgysylltiad â gweithgaredd recriwtio Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

- Cefnogi'r Swyddog Gweinyddu Marchnata a Recriwtio i recriwtio a hyfforddi llysgenhadon myfyrwyr ar gyfer Prifysgol Metropolitan Caerdydd, gan sicrhau bod briffiau priodol yn cael eu rhoi i Lysgenhadon Myfyrwyr sy'n cefnogi digwyddiadau.

- Rhoi adborth rheolaidd ar wybodaeth o sesiynau ysgolion a cholegau i'r Tîm Recriwtio Myfyrwyr i helpu i lywio strategaethau.

- Cynnal tasgau gweinyddol i gefnogi cynllunio digwyddiadau megis; archebu ystafelloedd, archebu arlwyo ac ati yn ôl gofynion Swyddogion Recriwtio Myfyrwyr a Swyddogion Digwyddiadau Recriwtio Myfyrwyr.

.

- Cysylltu â chyflenwyr allanol i gytuno ar logisteg allweddol cyn digwyddiadau.

- Cynorthwyo Swyddogion Digwyddiadau Recriwtio Myfyrwyr i gasglu adborth ar ddigwyddiadau i'w adolygu er mwyn gwella digwyddiadau yn y dyfodol.

- Mynd â grwpiau o ddarpar fyfyrwyr a gwesteion o amgylch y naill gampws neu'r llall, gan ddarparu gwybodaeth am gyrsiau a'r Brifysgol.

- Cymorth gyda chyflwyno sesiynau recriwtio ôl-raddedig i fyfyrwyr israddedig blwyddyn olaf Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

**<u>Manyleb person</u>**
**Cymwysterau Hanfodol / Aelodaeth Broffesiynol**

- Graddiodd yn ddiweddar o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, ar ôl graddio o fewn y tair blynedd diwethaf.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth am y broses Ymgeisio Addysg Uwch (UCAS) a'r llwybrau astudio sydd ar gael i Addysg Uwch a'r gefnogaeth sydd ar gael.
2. Gwybodaeth am bortffolio rhaglenni Met Caerdydd o israddedigion, ôl-raddedigion, cyrsiau byrion a chynigion myfyrwyr.
3. Y gallu i weithio ar eich menter eich hun, gyda lleiafswm o oruchwyliaeth.
4. Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig ac ar lafar.
5. Sgiliau cyfrifiadurol – hyddysg mewn pecynnau Microsoft Office.
6. Profiad o wneud cyflwyniadau i grwpiau o wahanol feintiau.
7. Sgiliau trefnu a rheoli amser da.
8. Trwydded yrru lawn oherwydd teithio i leoliadau anghysbell lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynadwy

**Dymunol**

1. Profiad o rôl debyg mewn Prifysgol.

2. Profiad fel Llysgennad Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau iaith Gymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | | | | |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi eich hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **C2 - Prif ddefnyddiwr**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad manwl y DBS o restr gwahardd plant.

**Gwybodaeth ategol**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd na'r fanyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.